

ASESIAD EFFAITH RHEOLEIDDIOL (RIA)

1. Mae Aseiad Effaith Rheoleiddiol Drafft wedi'i gwblhau ar gyfer Bil Deddfwriaeth (Cymru) Drafft (y Bil Drafft). Mae Rhan 1 o'r RIA yn ystyried hygyrchedd cyfraith Cymru, a Rhan 2 yn ymdrin â dehongli statudol.
2. Nid oes unrhyw ddarpariaethau penodol yn y Bil Drafft sy'n codi gwariant ar Gronfa Gyfunol Cymru.

Rhan 1: Hygyrchedd Cyfraith Cymru

Nodyn i'r darlennydd: nodir y cefndir ar y trefniadau presennol ac arfaethedig ar gyfer gwneud cyfraith Cymru'n fwy hygyrch yn y papur ymgynghori – gweler yn arbennig Bennod 2 o Ran 1 o'r ddogfen honno.

3. Mae tri opsiwn wedi cael eu hasesu wrth ystyried sut i fynd i'r afael â'r angen i wella hygyrchedd y gyfraith sy'n gymwys yng Nghymru:

Opsiwn 1: Rhaglen hygyrchedd ffurfiol gyda dyletswydd statudol yn sail iddi

Opsiwn 2: Rhaglen hygyrchedd ffurfiol heb ddyletswydd statudol

Opsiwn 3: Dyhead i wella hygyrchedd ond ddim rhaglen ffurfiol
4. Nid yw'r Rhan hon o'r RIA, a bod yn fanwl gywir, yn ymchwilio i opsiwn "gwneud dim byd" gan fod Llywodraeth Cymru'n glir bod angen mynd i'r afael â hygyrchedd cyfraith Cymru.
5. Ceir disgrifiad manylach o bob opsiwn isod, ynghyd â dadansoddiad o gostau a manteision cysylltiedig pob un.

Opsiwn 1 – Rhaglen hygyrchedd ffurfiol gyda dyletswydd statudol yn sail iddi

6. O dan Opsiwn 1 byddai Llywodraeth Cymru yn gweithredu ei hymrwymiad yn llawn i wella hygyrchedd cyfraith Cymru yn unol ag argymhellion Comisiwn y Gyfraith (a wnaed yn eu hadroddiad ar *Furf a Hygyrchedd y Gyfraith sy'n Gymwys yng Nghymru*¹ a dderbyniwyd gan y Llywodraeth. Wrth wneud hynny byddai hefyd yn neilltuo adnodd penodedig i'r dasg.

¹ Ar gael yn:

http://www.lawcom.gov.uk/app/uploads/2016/06/lc366_form_accessibility_wales_Welsh.pdf

7. Ym mis Gorffennaf 2017 derbyniodd Llywodraeth Cymru (neu dderbyn o ran egwyddor) bob un ond dau o argymhellion Comisiwn y Gyfraith. Mae hyn yn golygu, ymhlith pethau eraill, fod y Llywodraeth wedi cytuno:
 - a. i fynd ar drywydd rhaglen reolaidd o gydgrynhoi a chodeiddio yn achos deddfwriaeth ddatganoledig (ac i fod dan rwymedigaeth i wneud hynny);
 - b. i weithio gyda'r Cynulliad Cenedlaethol i ddatblygu rheolau sefydlog priodol ar gyfer Biliau cydgrynhoi;
 - c. i ddiogelu Codau Cyfraith Cymru ar ôl iddynt gael eu gwneud (gan sicrhau nad yw'r llyfr statud yn mynd yn fwy tameidiog yn y dyfodol);
 - d. i gymryd camau i wella cyhoeddi deddfwriaeth ar ffurf electronig, gan weithio gyda'r Archifau Gwladol; a
 - e. datblygu gwefan Cyfraith Cymru/Law Wales² ymhellach.
8. Casglodd Comisiwn y Gyfraith nad oes modd mynd ati i gydgrynhoi a chodeiddio'r gyfraith sy'n gymwys yng Nghymru mewn ffordd dameidiog a bod angen rhaglen hirdymor. Roedd y Comisiwn o'r farn hefyd nad yw'r sefyllfa bresennol yn ymarferol bellach ac argymhellodd ddull gweithredu radical. O dan y dull hwn byddai llywodraethau olynol yng Nghymru yn cael eu rhwymo gan rwymedigaeth statudol i fynd ar drywydd rhaglen reolaidd o gydgrynhoi a chodeiddio yn achos deddfwriaeth ddatganoledig.
9. Mae Opsiwn 1 yn cynnwys, felly, fod y rhwymedigaeth statudol a gynigir gan Gomisiwn y Gyfraith yn cael ei rhoi ar waith trwy roi:
 - a. Y Cwnsler Cyffredinol, fel Swyddog Cyfraith Cymru, o dan ddyletswydd i gadw hygyrchedd cyfraith Cymru o dan ystyriaeth (adran 1 o'r Bil Drafft); a
 - b. Gweinidogion Cymru a'r Cwnsler Cyffredinol o dan ddyletswydd i ddatblygu a gweithredu rhaglen o weithgarwch ar gyfer pob Cynulliad, yn nodi'r hyn y maent yn bwriadu ei wneud i wella hygyrchedd cyfraith Cymru, sy'n gorfod cynnwys cydgrynhoi a chodeiddio'r gyfraith ddatganoledig (adran 2 o'r Bil Drafft).
10. Diben y ddyletswydd yn adran 1 o'r Bil Drafft yw bod y Cwnsler Cyffredinol o dan rwymedigaeth i ystyried nid yn unig pob cyfraith newydd a gynigir, ond hefyd gyflwr cyfraith Cymru yn ei chryswth – rhywbeth sy'n arfer safonol mewn

² Ar gael yn <http://law.gov.wales/?lang=cy>

llawer o awdurdodaethau eraill ledled y byd. Bwriedir i hyn hybu dull gweithredu cyfannol, systematig o wneud cyfreithiau a fyddai'n gwella hygyrchedd y gyfraith dros y tymor hir.

11. Mae i'r ddyletswydd yn adran 2 o'r Bil Drafft ddiben tebyg, ond mae'n darparu ar gyfer mynd ar drywydd rhaglen i gydgrynhoi a chodeiddio cyfraith Cymru yn systematig dros amser, cadw codau'r gyfraith pan fyddant wedi'u deddfu a hwyluso defnydd o'r Gymraeg. Yn ychwanegol, gallai pob rhaglen gynnwys hefyd fentrau eraill i wella hygyrchedd, megis datblygu ymhellach ddeunydd esboniadol ar wefan *Cyfraith Cymru* neu wella'r ffordd y caiff deddfwriaeth Cymru ei lledaenu.
12. Y nod cyffredinol yw sicrhau bod canolbwynt cyson a pharhaus ar hygyrchedd y gyfraith yn rhan annatod o swyddogaeth gwneud cyfreithiau yng Nghymru.
13. Mae Llywodraeth Cymru a Chomisiwn y Gyfraith yn cytuno y bydd yn cymryd llawer o flynyddoedd i gwblhau'r dasg oherwydd ei maint a'i chymhlethdod. Mae'n debygol y bydd cyfres systematig o raglenni'n cymryd dros 20 mlynedd i gyflawni'r nod. Bydd y broses hon yn gofyn am adnoddau ac ymrwymiad sylweddol dros lawer o flynyddoedd.
14. Bydd yr amserlen ar gyfer sicrhau llyfr statud hygyrch i Gymru y bydd y rhan fwyaf os nad y cyfan o ddeddfwriaeth ddatganoledig wedi'i chodeiddio o'i fewn yn dibynnu ar faint o adnodd a gaiff ei neilltuo i'r dasg. Po fwyaf o adnodd sydd ar gael, cyflymaf yn y byd y câi ei wneud. Mae'r afrealistig, er hynny, ddisgwyl i faint yr adnodd sydd ar gael fod yn ddigonol i alluogi'r dasg i gael ei chwblhau cyn pen llai na phum mlynedd (rhywbeth na chaiff ei gyflawni yn ôl pob tebyg oherwydd yr angen i gydgyssylltu cydgrynhoi'r gyfraith â'r broses o ddiwygio'r gyfraith gan y Rhaglen Ddeddfwriaethol). I'r gwrthwyneb, os na chaiff digon o adnoddau eu neilltuo nid yw'n debygol y caiff y dasg ei chyflawni byth oherwydd cyfradd y newid i'r llyfr statud a fydd yn digwydd beth bynnag yn ystod busnes arferol y Cynulliad Cenedlaethol.
15. Er bod Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i'r dasg o wneud cyfraith Cymru'n fwy hygyrch, mae'n glir hefyd, er hynny, fod rhaid rhoi blaenoriaeth i'r gwaith y mae ei angen i gyflawni ei rhaglen diwygio deddfwriaethol ac i wneud y newidiadau y mae eu hangen i gyfraith Cymru o ganlyniad i ymadawiad y Deyrnas Unedig â'r Undeb Ewropeaidd. Er mai'r bwriad yw neilltuo adnodd penodedig i'r dasg o gydgrynhoi a chodeiddio'r gyfraith (yn arbennig) mae risg y gallai fod angen – mewn amgylchiadau eithriadol – defnyddio'r adnodd ar gyfer y blaenoriaethau hyn. Ar y llaw arall mae llawer o synergeddau sy'n golygu y bydd cyfleoedd i wella hygyrchedd gan ddatblygu'r rhaglen ddeddfwriaethol yr un pryd â delio ag effaith ddeddfwriaethol ymadael.

Costau opsiwn 1

16. Mae costau'n gysylltiedig â pharatoi a darparu rhaglen o weithgareddau i wella hygyrchedd. Mae cost yn gysylltiedig hefyd â datblygu'r Bil sy'n cynnwys y rhwymedigaeth statudol – er mai 'cost suddedig' yw hon ar hyn o bryd, gan fod Bil Drafft wedi'i baratoi.
17. At ddibenion darlunio yn unig, mae rhaglen enghreifftiol o wella hygyrchedd wedi cael ei chostio. Dros dymor Cynulliad cyfan byddai'r rhaglen enghreifftiol hon yn ceisio cyflawni pedwar i bump o brosiectau biliau cydgrynhoi (rhyw un y flwyddyn) yn ogystal â rhywfaint o gydgrynhoi offerynnau statudol, prosiectau i wella cyhoeddi ac esbonio Cyfraith Cymru, a phrosiectau eraill â'r nod o wella prosesau ar gyfer gwneud cyfraith. Amcangyfrifir y byddai costau rhaglen o'r fath tua £565k y flwyddyn³. Byddai cost pob rhaglen yn dibynnu ar yr adnodd sy'n caei ei neilltuo iddo a maint y gweithgarwch a gynhwysir ynddo.
18. Byddai gweithgareddau yn y rhaglen, yn enwedig prosiectau cydgrynhoi, yn golygu yn bennaf drafftio a chyfieithu gan Gwnsler Deddfwriaethol Llywodraeth Cymru a chyfieithwyr deddfwriaethol. Byddai angen adnodd polisi a gweinyddol hefyd i gefnogi prosiectau cydgrynhoi ac i ddarparu'r elfennau hynny ar bob rhaglen nad ydynt yn cynnwys cydgrynhoi (yn bennaf gwella'r ffordd y caiff deddfwriaeth ei lledaenu). Câi hyn ei ariannu gan gymysgedd o gostau cyfle a gâi eu hamsugno yn nhrefn arferol y busnes a chyllid (rhaglenni) ychwanegol oddi wrth Adrannau yn Llywodraeth Cymru fesul achos fel sy'n digwydd ar hyn o bryd yn achos prosiectau mawr eraill sy'n gofyn am adnoddau cyfreithiol a chyfieithu arbenigol.
19. Yn ogystal, byddai angen cytuno ar y rhaglen, ei pharatoi, ei chyfieithu a'i chyhoeddi. Câi'r elfennau hyn eu cyflawni trwy ddefnyddio adnoddau presennol o fewn Llywodraeth Cymru.
20. Mae'r gost o roi rhwymedigaeth statudol ar y Llywodraeth yn fach iawn gan ei bod yn rhan o Fil ehangach y mae'r Llywodraeth yn bwriadu ei ddatblygu beth bynnag ar ddehongli deddfwriaeth Cymru. Beth bynnag 'cost suddedig' yw hon erbyn hyn gan fod y Bil wedi'i baratoi at ddibenion ymgynghori.

Manteision opsiwn 1

21. Mae Aelodau'r Cynulliad a rhanddeiliaid, gan gynnwys uwch aelodau o'r farnwriaeth, wedi galw ar Lywodraeth Cymru i gydgrynhoi'r gyfraith o fewn meysydd datganoledig a sicrhau bod y gyfraith sy'n gymwys yng Nghymru yn

³ Noder bod y ffigur hwn yn seiliedig ar amcangyfrif o lefel resymol o weithgareddau a chostau, yn hytrach na swyddi; fe'i seilir ar gostau yn ôl y sefyllfa ym Mawrth 2018 ac felly nid yw'n cymryd i ystyriaeth unrhyw ddyfarniadau tâl neu gostau ychwanegol a allai fod yn gymwys ar yr adeg briodol.

glir, yn sicr ac yn hawdd i'w gwe-lywio, yn hygyrch i bawb ac yn ddi-dâl. Ymatebodd 45 o randdeiliaid i ymgynghoriad Comisiwn y Gyfraith ar y mater, ac fe gytunodd pob un fod angen i'r Llywodraeth weithredu.

22. Mae manteision defnyddio'r dull gweithredu a gynigiwyd, fel y'i nodir gan Gomisiwn y Gyfraith⁴, yn cynnwys:
- a. ei gwneud yn llawer tebycach y bydd dinasyddion y mae angen iddynt edrych ar y gyfraith yn gallu dod o hyd i'r gyfraith berthnasol a'i deall;
 - b. arbed amser yn sgil llai o ymchwil gan ymarferwyr y gyfraith yng Nghymru a gwell capasiti ar gyfer mynediad cyfreithiol gan gymdeithas ddinesig nad yw'n rhan o fyd y gyfraith;
 - c. mwy o hyder yn y gyfraith i fusnesau, y Llywodraeth a dinasyddion, gan arwain at benderfyniadau mwy hyderus a mwy effeithlon ym maes diwygio'r gyfraith, buddsoddi a meysydd eraill;
 - d. llai o debygrwydd y bydd gwallau;
 - e. arbedion llys trwy brosesau cyfreithiol mwy effeithlon; a
 - f. cydraddoldeb o ran y Gymraeg a hyrwyddo'r defnydd ohoni.
23. Nid yw'n glir, er hynny, i ba raddau y gallai'r manteision hyn olygu arbedion ariannol. Amcangyfrifodd Comisiwn y Gyfraith y gallai'r manteision sy'n deillio o roi eu hargymhellion ar waith ddod i ryw £24 miliwn y flwyddyn. Nid yw Llywodraeth Cymru wedi ceisio cadarnhau'r dadansoddiad hwn, ac nid yw'n cymhwyso'r ffigur hwn fel rhan o'i ddadansoddiad budd ei hun yn yr RIA drafft hwn. Ond mae'r ffigur, o leiaf, yn fesuriad ariannol o'r amser a allai gael ei arbed ac mae'n fynegiant, felly, ynghylch i ba raddau y gellid defnyddio adnoddau i wneud pethau eraill. Mae'r fantais gymdeithasol a fyddai'n sicr o ddeillio o hyn yr un mor bwysig ond yn amhosibl ei meintoli mewn termau ariannol.

Casgliad

24. Mae'r mwyafrif, os nad y cyfan o'r rhanddeiliaid yn cytuno bod cydgrynhoi a chodeiddio'r gyfraith yn syniad da. Cydnabyddir hefyd y byddai manteision cymdeithasol ac economaidd sylweddol yn y tymor canolig i'r tymor hir. Byddai gweithio gyda llyfr statud wedi'i resymoli yn arbed amser, yn cynyddu effeithlonrwydd ac yn galluogi swyddogion i wneud mwy, gan arwain hefyd, o bosibl, at arbedion ariannol gwirioneddol.

⁴ Comisiwn y Gyfraith (2016) *Asesiad Effaith o Ffurf a Hygyrchedd y Gyfraith sy'n Gymwys yng Nghymru*

25. Er nad Llywodraeth Cymru sy'n gyfrifol am y problemau a amlinellir, mae'n cydnabod bod ganddi gyfrifoldeb dros y gyfraith o fewn yr awdurdodaeth gyfreithiol sy'n dod i'r amlwg yng Nghymru. Mae Llywodraeth Cymru eisoes wedi cynnal gweithgareddau i fynd i'r afael â'r broblem ac mae'n bwriadu gwneud hynny dros y tymor hir.
26. Mae'r opsiwn hwn yn adlewyrchu'r argymhellion y cytunwyd arnynt a wnaed gan Gomisiwn y Gyfraith a dyma'r opsiwn a ffeirir gan Lywodraeth Cymru.

Opsiwn 2 – Rhaglen hygyrchedd ffurfiol heb ddyletswydd statudol

27. O dan Opsiwn 2 byddai Llywodraeth Cymru'n rhoi ar waith ei hymrwymiad i wella hygyrchedd cyfraith Cymru, fel yn Opsiwn 1, ac mae hefyd yn golygu neilltuo adnodd penodedig i'r dasg. Er hynny, byddai un eithriad: ni fyddai Llywodraeth Cymru'n mynd ar drywydd deddfwriaeth i orfodi dyletswydd statudol arni ei hun (a llywodraethau'r dyfodol) i ddatblygu'r rhaglenni hygyrchedd a amlinellir uchod.
28. Argymhellodd Comisiwn y Gyfraith y cam gweddol anarferol lle y byddai Llywodraeth yn gosod dyletswydd arni ei hun gan ei bod yn ymwybodol bod ymdrechion blaenorol niferus i gydgyrchoi'r gyfraith wedi methu. Roedd o'r farn bod rhwymedigaeth statudol yn hanfodol er mwyn cynnal proffil y mater ac i sicrhau bod y gwaith yn dal yn flaenoriaeth i'r Llywodraeth dros y tymor hir. Yn wyneb yr amser y bydd yn ei gymryd i gyrraedd y nod, prif ddiben y ddyletswydd yw sicrhau bod llywodraethau olynol yn dal i ganolbwyntio ar wneud y gyfraith yn fwy hygyrch. Mae hyn yn dilyn y dull gweithredu sydd wedi'i arddel (yn llwyddiannus) yn Seland Newydd ers 2012.

Costau opsiwn 2

29. Byddai'n mwyafrif o'r costau a gysylltir â rhoi'r rhwymedigaeth statudol ar waith yn bodoli p'un a eir ar ei drywydd neu beidio oherwydd y Bil Drafft ehangach. Byddai arbedion costau, felly, yn fach iawn (a byddent yn arbedion o ran costau cyfle yn hytrach nag arbedion ariannol).

Manteision opsiwn 2

30. Mae'r adran hon yn ystyried pa fanteision a fyddai'n codi yn ychwanegol at y rhai a nodir mewn perthynas ag Opsiwn 1. Mae yna ryw baradocs – meddai rhai – mewn defnyddio deddfwriaeth i fynd i'r afael â phroblem a achosir yn rhannol gan swmp y ddeddfwriaeth sy'n bodoli. Ni fyddai Llywodraethau'n deddfu, fel rheol, oni bai fod angen gwneud hynny. Ar y sail honno gellid dweud bod rhwymedigaeth statudol, a goblygiadau gweinyddol ymateb i graffu ar y rhwymedigaeth honno, yn cynnwys defnyddio adnodd nad yw'n angenrheidiol.

Er hynny, ym marn Llywodraeth Cymru byddai manteision codi proffil y mater er mwyn sicrhau canolbwynt hirdymor ar y broblem (yn rhannol trwy rwymo llywodraethau'r dyfodol) yn drech na'r pryderon hynny a'r costau bach iawn.

Casgliad

31. Mae Llywodraeth Cymru'n cytuno â barn Comisiwn y Gyfraith bod angen dyletswydd statudol i rwymo llywodraethau'r dyfodol ac i sicrhau y cedwir canolbwynt hirdymor ar y mater. Nid yw'r Llywodraeth yn ffafrio Opsiwn 2, felly.

Opsiwn 3: Dyhead i wella hygyrchedd ond ddim rhaglen ffurfiol

32. Anelu at weithredu ymrwymiad Llywodraeth Cymru i wella hygyrchedd cyfraith Cymru, ond heb osod rhwymedigaeth statudol ar y Llywodraeth i wneud hynny, heb neilltuo adnodd penodedig i'r dasg a heb ddatblygu rhaglen weithgarwch ffurfiol.
33. Yn y bôn mae opsiwn 3 yn ddisgrifiad o waith Llywodraeth Cymru hyd yn hyn i fynd i'r afael â diffyg hygyrchedd y llyfr statud. Mae'r Llywodraeth wedi cynnal nifer o weithgareddau, a gwneud penderfyniadau niferus, sydd wedi'u cynllunio i wella hygyrchedd ond mae wedi gwneud hynny mewn ffordd dameidiog lle bo adnoddau'n caniatáu. Gellid dweud nad yw opsiwn 3 yn opsiwn ymarferol gan na fyddai'n golygu rhoi argymhellion Comisiwn y Gyfraith ar waith yn llawn ond yn hytrach ddymuniad i ddilyn ysbryd yr argymhellion hynny.
34. Yn ymarferol byddai mynd ar drywydd yr opsiwn hwn bron yn sicr yn golygu y byddai Llywodraeth Cymru yn methu yn ei nod o godeiddio'r gyfraith ddatganoledig. Y rheswm dros hyn yw y câi adnodd annigonol ei neilltuo i'r dasg anferth o godeiddio. Byddai cynnydd annigonol yn cael ei wneud i ddelio â'r mater o fewn amserlen realistig, ac yn y cyfamser byddai trefn arferol busnes y Llywodraeth a Busnes y Cynulliad Cenedlaethol yn golygu y byddai'r llyfr statud yn parhau i gael ei ddiwygio ac i dyfu.

Costau opsiwn 3

35. O dan yr opsiwn hwn ni ddyrennir unrhyw adnodd penodedig i'r dasg o wella hygyrchedd. Er bod costau cyfle yn parhau lle bynnag y defnyddir adnoddau sy'n bodoli eisoes, hwn yw'r opsiwn heb gostau, mewn termau ymarferol. Byddai arbediad yn cael ei wneud, felly, dros y tymor byr ond yn y tymor hir byddai problemau diffyg hygyrchedd yn dal i gael eu teimlo a byddai'r annigonedd yn parhau. Mae hyn yn annhebygol, felly, o fod yn wir arbediad.

Manteision opsiwn 3

36. Manteision yr opsiwn hwn yw'r arbedion ariannol (neu'r arbedion ariannol damcaniaethol) a amlinellir uchod. Byddai'r rhain yn cael eu gwrthbwysu, er hynny, gan y sicrwydd na fydd defnyddio'r adnodd presennol yn mynd i'r afael â'r broblem yn llwyr.

Casgliad

37. O dan opsiwn 3 byddai hi bron yn sicr y byddai'r gyfraith yn parhau i ddod yn fwy cymhleth, byddai mynediad i gyfiawnder yn parhau i gael ei lesteirio a byddai rheolaeth y gyfraith yn cael ei thanseilio. Byddai hyn yn achosi niwed sylweddol i enw da Llywodraeth Cymru a byddai'n methu â gwireddu manteision cymdeithasol ac economaidd gwella hygyrchedd. O'r herwydd nid dyma'r opsiwn a ffefrir.

Rhan 2: Dehongli cyfraith Cymru yn statudol

Nodyn i'r darlennydd: nodir y cefndir ar ddiben Deddfau dehongli a'r trefniadau presennol ac arfaethedig ar gyfer dehongli cyfreithiau Cymru yn y papur ymgynghori – gweler yn arbennig Ran 2 o'r ddogfen honno.

38. Mae tri opsiwn wedi'u hasesu wrth ystyried a ddylid mynd i'r afael â diffyg Deddf bwrpasol, fodern a dwyieithog ar ddehongli cyfreithiau Cymru:

Opsiwn 1: Parhau i gymhwyso Deddf Dehongli 1978 (Deddf 1978) ar gyfer dehongli cyfreithiau Cymru (h.y. "gwneud dim")

Opsiwn 2: Parhau i gymhwyso Deddf 1978 ar gyfer dehongli cyfreithiau Cymru ond atgynhyrchu Atodlen 1 i'r Ddeddf honno (sy'n cynnwys diffiniadau o eiriau ac ymadroddion a ddefnyddir yn gyffredin) yn Gymraeg

Opsiwn 3: Datblygu darpariaethau dehongli newydd (ar wahân) ar gyfer Cymru i lywodraethu'r ffordd y caiff cyfreithiau Cymru eu dehongli.

39. Ceir disgrifiad manylach o bob opsiwn isod, ynghyd â dadansoddiad o'r costau a'r manteision cysylltiedig.

Opsiwn 1 – Gwneud dim

40. Mae'r dewis 'gwneud dim' yn golygu peidio â chymryd camau pellach, fel y bydd Deddf 1978 yn parhau'n gymwys i'r holl ddeddfwriaeth sy'n gymwys yng Nghymru. Byddai hyn yn golygu, yn wahanol i bob un o'r deddfwrfeydd eraill yn y Deyrnas Unedig, na fyddai gan y Cynulliad Cenedlaethol Ddeddf sy'n rhagnodi sut y dylid dehongli'r cyfreithiau y mae'n eu pasio (ac is-ddeddfwriaeth a wneir o dan y cyfreithiau hynny).

41. Mae gwneud dim hefyd yn anghyson ag ymrwymiad Llywodraeth Cymru i wella hygyrchedd y gyfraith sy'n gymwys yng Nghymru. Mae Llywodraeth Cymru wedi'i gwneud yn glir ei bod am i gyfreithiau Cymru fod yn glir, yn sicr, ac yn hawdd i'w gwe-lywio. Mae gan Ddeddfau ar ddehongli deddfwriaeth rôl bwysig o ran sicrhau hygyrchedd y gyfraith – er eu bod yn dechnegol eu natur, maent yn cwtogi ar ddeddfwriaeth ac yn hybu cysondeb yn iaith a ffurf deddfwriaeth. Byddai cadw'r fframwaith deddfwriaethol presennol ar gyfer dehongli'n statudol yn golygu y câi cyfle i wneud darpariaeth bwrpasol, fodern yng Nghymru sy'n unioni rhai o'r problemau a gysylltir â Deddf 1978 yn cael eu colli.

42. Byddai diffyg darpariaethau dehongli yn y Gymraeg o hyd sy'n gymwys i'r ystod fawr o ddeddfwriaeth ddwyieithog sydd mewn grym. Mae hyn yn golygu y

byddai'r rhai sy'n dymuno defnyddio'r testun Cymraeg o'r gyfraith yn gorfod parhau i ddibynnu ar Ddeddf ddehongli uniaith Saesneg er mwyn penderfynu ei hystyr a'i heffaith. Byddai'r anghydraddoldeb o ran y driniaeth o'r Gymraeg a'r Saesneg, felly'n parhau. Mae'n glir bod hyn yn groes i ysbryd Deddf Llywodraeth Cymru 2006.

43. Rhagwelir y bydd y Gymraeg wedi cael ei defnyddio mewn 600-700 o achosion llys erbyn diwedd 2017⁵, sef cynnydd o dros 570 o achosion lle y cafodd y Gymraeg ei defnyddio yn ystod y cyfnod 2015-16⁶. Mae hwn yn nifer sylweddol. Nid yw'n glir faint o'r achosion hyn sydd wedi bod yn destun pwynt o ddehongli statudol; er hynny, mae'n amlwg nad yw dibynnu ar Ddeddf ddehongli sy'n uniaith Saesneg (ac nad yw'n adlewyrchu dull gweithredu neilltuol Cymru o ran gwneud cyfreithiau) yn briodol.
44. Mae hyn yn bwysig hefyd am fod y defnydd o'r Gymraeg yn y gyfraith yn debygol o gynyddu am gyfuniad o resymau:
 - a. mae mwy a mwy o gyfreithiau dwyieithog yn cael eu pasio;
 - b. mae mwy o fyfyrwyr yn astudio'r gyfraith trwy gyfrwng y Gymraeg;
 - c. mae'n debygol y caiff defnydd o'r Gymraeg yn y llysoedd – a ganiateir eisoes mewn llysoedd troseddol – ei ymestyn i'r Llysoedd Teulu a Sifil pan fydd Rheolau Llysoedd wedi'u diwygio; a
 - d. mae camau'n cael eu cymryd yn fwy cyffredinol gan Lywodraeth Cymru i hybu'r defnydd o'r iaith⁷.

Yn ogystal mae nifer cynyddol o'r farnwriaeth yn gallu cynnal achosion yn Gymraeg – mae hyn yn cynnwys un rhan o dair o'r holl Farnwyr Cylchdaith, un rhan o dair o Farnwyr Rhanbarth ac ychydig yn llai na hanner Barnwyr Rhanbarth (Llysoedd Ynadon)⁸.

Costau opsiwn 1

45. Gan fod opsiwn 1 yn golygu cadw'r fframwaith deddfwriaethol presennol ar gyfer y dehongliad statudol o'r gyfraith sy'n gymwys yng Nghymru, nid oes unrhyw gostau ychwanegol yn gysylltiedig â'r dewis hwn.

⁵ Barnwriaeth Cymru a Lloegr (2017) *The Lord Chief Justice's Report 2017*

⁶ Barnwriaeth Cymru a Lloegr (2016) *The Lord Chief Justice's Report 2016*

⁷ Er enghraifft: Llywodraeth Cymru (2017) *Cymraeg 2050: Strategaeth y Gymraeg*

⁸ Barnwriaeth Cymru a Lloegr (2017) *The Lord Chief Justice's Report 2017*

Manteision opsiwn 1

46. Pe bai deddfwriaeth newydd yn cael ei chyflwyno ar gyfer dehongli cyfreithiau Cymru, byddai Deddf 1978 yn dal yn gymwys i holl Ddeddfau Senedd y DU ac is-ddeddfwriaeth a wneir o danynt (heblaw gan Weinidogion Cymru) sy'n gymwys yng Nghymru. Er hwylustod cyfeirir at hyn yn yr RIA fel y mater "dwy Ddeddf", a rhoddir esboniad llawnach o'r mater a'r anawsterau y gallai eu hachosi yn opsiwn 3 isod.
47. O dan opsiwn 1 yr unig fantais yw mai Deddf 1978 fydd y Ddeddf y dehonglir deddfau yng Nghymru trwyddi o hyd, ac ni fyddai unrhyw ddryswch sy'n deillio o'r mater dwy Ddeddf (a gwneud darpariaeth bwrpasol newydd ar gyfer cyfreithiau Cymru), felly'n codi. Yn yr un modd, fel gydag unrhyw gynnig arall i ddiwygio'r gyfraith, byddai gwneud dim byd yn golygu peidio â mynd i'r costau a gysylltir â gwneud y gyfraith a sicrhau bod defnyddwyr yn ymwybodol o'r newid i'r gyfraith.

Casgliad

48. O dan y dewis hwn byddai'r diffygion a'r nodweddion annigonol a nodwyd yn y fframwaith deddfwriaethol presennol, yn enwedig mewn cyd-destun Cymreig yn aros. Ni fyddai unrhyw gamau gweithredu'n cael eu cymryd i sicrhau'r gwelliannau angenrheidiol i hygyrchedd y gyfraith ddwyieithog sy'n gymwys yng Nghymru. Yng ngoleuni hyn, cefnir ar yr opsiwn hwn.

Opsiwn 2 – Atgynhyrchu Atodlen 1 i Ddeddf Dehongli 1978 yn Gymraeg

49. Ni fyddai opsiwn 2 yn mynd i'r afael â'r ffaith nad oes gan Gymru, yn wahanol i ddeddfwrfeydd eraill yn y DU (a'r mwyafrif o ddeddfwrfeydd eraill ym myd y gyfraith gyffredin), ei darpariaethau ei hun ar ddehongli ei deddfau.
50. Ymhellach, mae llawer o randdeiliaid wedi awgrymu na ellid mynd i'r afael yn llawn â'r materion a godir gan gymhwyso Deddf 1978 i gyfraith Cymru ond pe bai'r ddeddfwriaeth yn cael ei moderneiddio. Mae hyn yn golygu gwneud darpariaeth bwrpasol newydd i Gymru sy'n cael ei mynegi mewn arddull drafftio modern a hygyrch ac yn adlewyrchu'r arferion presennol yn y gyfraith (gan gynnwys datblygiadau mewn technoleg). Ni fyddai mynd ati yn unig i fewnosod Atodlen wedi'i chyfieithu yn Neddf 1978 yn mynd i'r afael â'r materion hyn.
51. Yn olaf, mae Atodlen 1 o Ddeddf 1978 yn cynnwys rhestr o eiriau ac ymadroddion diffiniedig sy'n weddol gyffredin mewn deddfwriaeth, megis "*building regulations*"; "*financial year*", "*PAYE income*", "*land*", "*person*" ac "*enactment*". Er hynny, nid oes fersiwn Gymraeg gyfatebol o'r diffiniadau hyn. O

ganlyniad, er mwyn deall yn llawn eiriau ac ymadroddion Cymraeg penodol mewn deddfwriaeth, rhaid troi at destun Saesneg yr un deddfwriaeth ac yna at Ddeddf 1978.

52. Opsiwn 2 felly yw cynhyrchu fersiwn Gymraeg o Atodlen 1 i Ddeddf 1978. Byddai hon yn gymwys i deddfwriaeth ddwyieithog ac fe fyddai'n diffinio geiriau ac ymadroddion Cymraeg sy'n cyfateb i'r geiriau ac ymadroddion Saesneg hynny a restrir yn Atodlen1.
53. Byddai parhau i gymhwyso Deddf 1978 i gyfraith Cymru, tra'n atgynhyrchu hefyd Atodlen 1 bresennol i Ddeddf 1978 yn Gymraeg, yn unioni'r broblem a achosir gan y ffaith bod y diffiniadau yn Neddf 1978 yn gymwys i'r Saesneg yn unig. Yn ogystal, ni fyddai opsiwn 2 yn arwain at y mater dwy Ddeddf (a esbonnir yn opsiwn 3).
54. Er hynny, nodir rheolau hefyd mewn manau eraill yn Neddf 1978 sy'n ymwneud ag ystyr geiriau mewn cyfraith ddwyieithog yng Nghymru (er enghraifft adran 7 (cyfeiriadau at gyflwyno drwy'r post)). Ni fyddai'r rheolau hyn, na'r rheolau yn Neddf 1978 sy'n ymwneud ag effaith deddfwriaeth, yn bodoli yn y gyfraith yn Gymraeg pe baem yn mabwysiadu'r dull gweithredu yn opsiwn 2. Felly, ni fyddai opsiwn 2 yn mynd i'r afael yn llawn â'r materion hygyrchedd sy'n deillio o feddu ar Ddeddf ddehongli uniaith Saesneg.

Costau opsiwn 2

55. Mae'r costau a gysylltir ag opsiwn 2 yn ymwneud â pharatoi fersiwn Gymraeg o Atodlen 1. Drafftwy'r ac ieithyddion deddfwriaethol Llywodraeth Cymru fyddai'n drafftio ac yn cyfieithu hon ac fel y cyfryw ni fyddai hyn yn golygu ond costau cyfle a gâi eu hamsugno yn nhrefn arferol y busnes.
56. Byddai angen dod o hyd i gyfrwng deddfwriaethol addas i ddiwygio Deddf 1978, gan ei gwneud yn ofynnol arfer rhai swyddogaethau cyfreithiol a pholisi yn Llywodraeth Cymru (er enghraifft, paratoi dogfennau ategol perthnasol). Unwaith eto byddai'r rhain yn gostau cyfle a gâi eu hymgorffori yn nhrefn arferol y busnes.
57. Pe bai Deddf 1978 yn cael ei diwygio, byddai costau'n gysylltiedig â rhoi gwybod i bartion â buddiant am y deddfwriaeth wedi'i chyfieithu, a ble a phryd y dylai fod yn gymwys. Mae'n debygol y byddai hyn ar ffurf gosod gwybodaeth ar wefan Cyfraith Cymru, gwefan Llywodraeth Cymru ac e-bost at randdeiliaid allweddol.

Manteision opsiwn 2

58. Byddai opsiwn 2 yn mynd i'r afael â diffyg fersiwn Gymraeg gyfatebol o Atodlen 1 i Ddeddf 1978.
59. Mae rhanddeiliaid wedi nodi eu bod o blaid fersiwn Gymraeg o Atodlen 1 i Ddeddf 1978. Byddai diwygio Deddf 1978 fel hyn yn datrys diffyg mewn perthynas â dehongli unrhyw ddeddfwriaeth Gymraeg y byddai'r ddeddf honno'n dal yn gymwys iddi. Er hynny, cydnabyddir bod cyfyngiadau i'r ddadl hon gan fod rhai o'r diffiniadau yn Neddf 1978 yn croesgyfeirio at Ddeddfau eraill sydd ar gael yn Saesneg yn unig, ac ni fyddai'n darparu i'r rheolau yng nghorff Deddf 1978 (sydd hefyd yn bwysig) fod ar gael yn ddwyieithog.
60. Byddai hyn hefyd yn gosod y Gymraeg mewn darn allweddol o ddeddfwriaeth Senedd y DU, sy'n llywodraethu sut y dylid darllen a deall y gyfraith yng Nghymru a Lloegr.
61. Byddai diwygio Deddf 1978 fel hyn yn cyfrannu – i raddau – at wella hygyrchedd y Gyfraith sy'n gymwys yng Nghymru.

Casgliad

62. O dan yr opsiwn hwn byddai rhai o'r diffygion a'r nodweddion annigonol a nodwyd yn y fframwaith deddfwriaethol presennol, yn enwedig mewn cyd-destun Cymreig, yn parhau. Camau gweithredu rhannol yn unig a fyddai'n cael eu cymryd i sicrhau'r gwelliannau angenrheidiol i hygyrchedd y gyfraith ddwyieithog sy'n gymwys yng Nghymru. Yng ngoleuni hyn, cefnir ar yr opsiwn hwn.

Opsiwn 3 – Datblygu darpariaethau dehongli pwrpasol i Gymru

63. Opsiwn 3 yw datblygu darpariaethau dehongli dwyieithog a modern newydd i fod yn gymwys i gyfraith Cymru. Hwn yw'r opsiwn a ddarperir gan y Bil Drafft. Yn y cyd-destun hwn, ystyr "cyfraith Cymru" yw:
 - a. holl Ddeddfau'r Cynulliad;
 - b. yr holl is-ddeddfwriaeth a wneir gan Weinidogion Cymru o dan Ddeddf neu Fesur gan y Cynulliad, neu (lle nad yw Gweinidogion Cymru'n gweithredu ar y cyd ag eraill) o dan Ddeddf gan Senedd y DU; a
 - c. yr holl is-ddeddfwriaeth a wneir gan unrhyw berson arall o dan Ddeddf neu Fesur gan y Cynulliad

Ile mae'r ddeddfwriaeth honno'n cael y Cydsyniad Brenhinol (neu'n cael ei gwneud) ar y diwrnod y deuai Rhan 2 o'r Bil Drafft i rym neu ar ôl hynny.

64. Byddai'r Bil Drafft, o'i deddfu, nid yn unig yn mynd i'r afael â'r diffyg yn y Gymraeg o ddiffiniadau o eiriau ac ymadroddion a nodir yn Atodlen 1 i Ddeddf 1978, ond byddai hefyd yn cynnwys rheolau ehangach ar ddehongli a gweithredu'r gyfraith sy'n debyg i'r rhai yn Neddf 1978. Câi'r rheolau hyn eu teilwra i ddeddfwriaeth Cymru a byddent yn cyfrannu at wella hygyrchedd cyfreithiau Cymru.
65. Mae rhanddeiliaid yn awyddus i Lywodraeth Cymru wneud rhywbeth am ddiffyg darpariaeth Gymraeg yn Neddf 1978, ac i lawer mae hyn yn ymestyn i ddatblygu rheolau pwrpasol a modern ar ddehongli i Gymru.
66. Yn ôl y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol roedd yna "*werth mewn llunio Deddf Dehongli ar wahân i Gymru er mwyn gwella'r ddealltwriaeth o ddeddfau Cymru*"⁹, tra nododd Comisiwn y Gyfraith¹⁰ ddiffyg darpariaeth ynghylch dehongli deddfwriaeth yn Gymraeg. Byddai opsiwn 3 yn mynd i'r afael â rhai o'r argymhellion a wnaed gan y Pwyllgor a'r Comisiwn a'r pwyntiau a godwyd ganddynt.
67. Fel y nodwyd uchod, mae rhaglen y Cwnsler Cyffredinol o gydgrynhoi, codeiddio a chyhoeddi deddfwriaeth mewn ffordd well yn ceisio gwella hygyrchedd y gyfraith sy'n gymwys yng Nghymru. Fel rhan fach o'r rhaglen ehangach honno, byddai'r dewis hwn yn gwneud gwelliannau i'r gwaith o ddehongli cyfraith Cymru ac mae ei angen i ddatrys y diffygion a nodwyd yn Neddf 1978, yn enwedig fel y mae'n gymwys i'r gyfraith ddwyieithog yng Nghymru.
68. Mae rhai rhanddeiliaid o'r farn y dylai Deddf ar wahân sy'n gwneud darpariaethau dehongli ar gyfer dehongli cyfraith Cymru – aros yn debyg i raddau helaeth – i Ddeddf 1978 ac atgynhyrchu effaith llawer o ddarpariaethau'r Ddeddf honno. Cydnabu Llywodraeth Cymru y pwynt hwn yn yr ymgynghoriad polisi¹¹: mae'n bwysig nid lleiaf am fod Deddf 1978 yn mynd i'r afael â llawer o'r materion y mae angen mynd i'r afael â hwy mewn unrhyw Ddeddf ddehongli. Hefyd, mae bodolaeth y mater dwy Ddeddf (gweler isod) yn golygu na ddylai unrhyw wyro oddi wrth effaith Deddf 1978, neu unrhyw ychwanegiad ati, mewn perthynas â Chymru godi ond lle bo'i angen.
69. Wedi dweud hynny, byddai darpariaeth ddehongli bwrpasol newydd i Gymru yn caniatáu i Lywodraeth Cymru ddiwygio'r dehongliad o ddeddfwriaeth sy'n

⁹ Pwyllgor Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol (y Pedwerydd Cynulliad, *Deddfu yng Nghymru*)

¹⁰ Comisiwn y Gyfraith (2016), *Ffurf a Hygyrchedd y Gyfraith sy'n Gymwys yng Nghymru*

¹¹ Llywodraeth Cymru (2017) *Dehongli deddfwriaeth Cymru: Ystyried Deddf ddehongli i Gymru*

gymwys yng Nghymru, gan deilwra'r ddeddfwriaeth i anghenion penodol awdurdodaeth ddwyieithog sy'n dod i'r amlwg.

Y “mater dwy Ddeddf”

70. Nododd ymgynghoriad polisi cynharach Llywodraeth Cymru¹² na fyddai Deddf ar wahân sy'n gwneud darpariaethau dehongli ar gyfer dehongli cyfraith Cymru yn gymwys i ddeddfwriaeth sy'n gymwys yng Nghymru ond sy'n cael ei gwneud gan Lywodraeth y DU. Yn hytrach, byddai'r darpariaethau dehongli newydd yn gymwys i gyfraith Cymru (gweler uchod). Byddai Deddf 1978 yn dal yn gymwys i holl Ddeddfau Senedd y DU ac is-ddeddfwriaeth a wneir o danynt (heblaw gan Weinidogion Cymru) sy'n gymwys yng Nghymru. Mae hyn yn creu'r posibilrwydd y gallai person gymhwyso'r Ddeddf ddehongli anghywir drwy gamgymeriad wrth ddarllen deddfwriaeth sy'n gymwys yng Nghymru. Er hwylustod, cyfeirir at hyn fel y “mater dwy Ddeddf”.
71. Er hynny, nid yw'r mater dwy Ddeddf o reidrwydd yn negyddu manteision posibl cael Deddf ar wahân ar gyfer Cymru, yn enwedig mewn cyd-destun lle mae angen cydnabyddedig i Ddeddf ddehongli ddwyieithog fod yn gymwys i'r gyfraith ddwyieithog a wneir yng Nghymru. Gellid dweud bod y mater dwy Ddeddf yn deillio'n anochel, ym mhob un o fodolau datganoli presennol y DU, o gael Deddf ddehongli ‘ddatganoledig’ ar waith ochr yn ochr â Deddf 1978. Mae mater tebyg yn codi yn yr Alban a Gogledd Iwerddon, y mae gan y ddwy ohonynt eu Ddeddfau dehongli eu hunain, ac nid oes unrhyw dystiolaeth bod hyn wedi achosi unrhyw broblemau penodol yn y naill awdurdodaeth neu'r llall. (Mae'r ffaith nad oes awdurdodaeth ar wahân ar gyfer Cymru o berthnasedd cyfyngedig i'r mater hwn gan fod y darpariaethau dehongli'n gymwys i'r corff o gyfraith sy'n cael ei greu gan y ddeddfwriaeth a'r weithrediaeth – rhywbeth sy'n bodoli yng Nghymru er gwaethaf yr awdurdodaeth ar y cyd).

Costau opsiwn 3

Y mater dwy Ddeddf

72. Bydd yn bwysig cyfyngu effeithiau bodolaeth dwy Ddeddf sy'n ymwneud â dehongli'r gyfraith sy'n gymwys i Gymru. Yn arbennig, lle mae amwysedd o'r fath yn codi, mae angen rhoi ystyriaeth i'r effaith ar ddau brif gategori o berson:
- y rhai sy'n drafftio Biliau'r Cynulliad ac is-ddeddfwriaeth a wneir o dan Ddeddfau a Mesurau'r Cynulliad (i sicrhau eu bod yn cymryd y rheolau a'r termau dehongli cywir i ystyriaeth); a
 - unigolion sy'n dehongli'r gyfraith (neu'r rhai sy'n eu cynrychioli).

¹² Llywodraeth Cymru (2017) *Dehongli deddfwriaeth Cymru: Ystyried Deddf ddehongli i Gymru*

73. Y bwriad yw y câi'r rhai sy'n drafftio deddfwriaeth ganllawiau clir yn nodi'r ffordd y mae'r ddwy Ddeddf yn gymwys, a gwybodaeth berthnasol arall at ddibenion paratoi is-ddeddfwriaeth er mwyn lliniaru unrhyw effaith negyddol yn sgil bodolaeth y ddwy Ddeddf.
74. Byddai Nodiadau Esboniadol i'r Ddeddf derfynol hefyd yn cynorthwyo'r dinesydd a'r rhai sy'n eu cynrychioli i ddeall pa Ddeddf ddehongli sy'n gymwys i'r ddeddfwriaeth y maent yn ei darllen ac yn helpu i hybu hygyrchedd y gyfraith. Byddai gwybodaeth ar gael hefyd ar wefan Cyfraith Cymru, gwefan Llywodraeth Cymru, ac i ymarferwyr, ysgolion cyfraith, y Ganolfan Cyngor ar Bopeth, llyfrgelloedd ac unrhyw bartïon sydd â buddiant.
75. Ymhellach, er y gallai rhywfaint o ddryswch godi ar y dechrau ystyrir y byddai hyn yn cael ei ddatrys wrth i ddefnyddwyr y ddeddfwriaeth newydd ddod yn fwy cyfarwydd â'r ffordd y mae'n gweithredu, yn enwedig ei pherthynas â Deddf 1978. Byddai bodolaeth y Ddeddf newydd yn benodol i Gymru hefyd yn codi proffil Deddfau dehongli a'r ddealltwriaeth ohonynt a dealltwriaeth o Ddeddfau dehongli a'u diben yn gyffredinol, a fyddai'n lleddfu ymhellach ar y risg o ddryswch.

Nodyn at ddibenion ymgynghori – ceisir safbwyntiau ar gamau gweithredu posibl i leddfu effaith y mater dwy Ddeddf fel rhan o'r ymgynghoriad (gweler paragraffau 62 i 64 o'r Ddogfen ymgynghori).

Costau trosiannol

76. Mae'n anodd meintoli costau opsiwn 3 mewn termau ariannol a byddem yn croesawu barn rhanddeiliaid am hyn. Rydym wedi nodi'r camau gweithredu canlynol ar gyfer gweithredu, sy'n arwain at rai costau:
- a. *Ymgynefino â'r ddeddfwriaeth newydd* – byddai cost gychwynnol mewn perthynas â'r amser y mae ei angen i ddefnyddwyr ddeddfwriaeth (yn enwedig gweithwyr cyfreithiol proffesiynol a'r farnwriaeth ymgynefino â'r Ddeddf newydd a deall ei pherthynas â Deddf 1978 bresennol. Er hynny, mae'r cyfryw gostau yn codi yn nhrefn arferol y busnes gan fod gweithwyr cyfreithiol proffesiynol a'r farnwriaeth yn debygol o fod wedi cael hyfforddiant achlysurol/rheolaidd eisoes ar ddehongli'r gyfraith sy'n gymwys yng Nghymru. Byddai'r angen i ymgynefino â'r trefniadau newydd yn codi yn y flwyddyn gyntaf ar ôl i'r Bil gael y Cydsyniad Brenhinol, pe bai'n cael ei basio gan y Cynulliad.
 - b. *Paratoi a darparu canllawiau* – I gefnogi'r broses o roi'r Bil ar waith, Mae Llywodraeth Cymru'n bwriadu datblygu a chyhoeddi canllawiau anstatudol i'r

rhai sy'n drafftio is-ddeddfwriaeth. Llywodraeth Cymru fyddai'n ysgwyddo'r gost.

Câi'r canllawiau eu paratoi gan Lywodraeth Cymru (yn bennaf gan Swyddfa'r Cwnsleriaid Deddfwriaethol, y tîm o gyfreithwyr sy'n paratoi Biliau'r Llywodraeth, gyda chyfraniad gan gyfreithwyr sy'n drafftio is-ddeddfwriaeth). Câi'r gweithgarwch a'r gost a fyddai'n deillio ohono'n cael eu hymgorffori yn nhrefn arferol y busnes.

Câi'r canllawiau eu cyhoeddi ar-lein yn unig ac felly ni fyddai unrhyw gostau'n deillio o gyhoeddi ar ffurf brint.

- c. *Hyfforddi'r rhai sy'n gweinyddu'r gyfraith* – Cydnabyddir y byddai angen cynnal rhywfaint o weithgarwch hyfforddi a datblygu i ddrafftwyr Llywodraeth Cymru, gweithwyr cyfreithiol proffesiynol ac ysgolion cyfraith Cymru er mwyn codi ymwybyddiaeth o'r newidiadau a achosid gan y Bil pe bai'n cael ei deddfu.

Mae'n anodd meintioli cost hyfforddiant gan na chât ei ddarparu gan Lywodraeth Cymru, ond o bosibl gan sefydliadau eraill megis Cymdeithas y Cyfreithwyr neu Bwyllgor Cymreig y Coleg Barnwrol (ar gyfer aelodau'r farnwriaeth a'r tribiwnlys), a gallai ffurf yr hyfforddiant amrywio o un sefydliad i'r llall. Er enghraifft, mae Cyd-bwyllgor Cymreig y Coleg Barnwrol yn ogystal â darparu hyfforddiant ffurfiol hefyd yn cynhyrchu e-lythyr dwyieithog ar gyfer y farnwriaeth yng Nghymru. Ymhellach, cydnabyddir bod gweithwyr cyfreithiol proffesiynol a'r farnwriaeth yn debygol o fod wedi cael hyfforddiant achlysurol/rheolaidd eisoes ar ddehongli'r gyfraith sy'n gymwys yng Nghymru. Derbynnir felly y byddai'r hyfforddiant hwnnw, ar ôl y Cydsyniad Brenhinol, yn ymgorffori'r fframwaith deddfwriaethol newydd ac yn unol â hynny byddai hyn yn ystod trefn arferol y busnes. Am y rheswm hwn mae'n anodd meintioli'r costau hynny, heblaw disgwyl i unrhyw gost fod yn niwtral o ran costau.

Byddem, felly'n croesawu sylwadau oddi wrth sefydliadau a fyddai'n gorfod sicrhau bod eu haelodau'n gyfarwydd â'r trefniadau newydd, ynghylch pa fath o wybodaeth y byddai Llywodraeth Cymru'n ei darparu i hwyluso'r broses honno.

Câi sesiynau gwybodaeth eu darparu'n fewnol gyda Llywodraeth Cymru. Byddai hyn yn dod o fewn y costau cyfle.

Costau rheolaidd

77. Rhagwelir na fyddai unrhyw gostau rheolaidd yn achos opsiwn 3.

78. Byddai gwneud y gyfraith yn fwy hygyrch trwy weithredu opsiwn 3 yn y blynyddoedd i ddod o leiaf yn niwtral o ran cost, a rhagwelir y byddai'n arwain at arbediad o ran cost pan fydd cynefindra â'r ddeddfwriaeth newydd yn cynyddu. Nid oes modd meintiol'r arbedion hynny mewn termau ariannol.

Manteision opsiwn 3

79. Byddai'r opsiwn hwn yn arwain at ddarpariaethau modern, dwyieithog ynghylch dehongli, a'r rheini'n bwrpasol i Gymru. Yn debyg i ddeddfwrfeydd eraill y gyfraith gyffredin, gan gynnwys yr Alban ac Iwerddon, byddai'n rhoi perchnogaeth i'r Cynulliad Cenedlaethol dros y gyfraith sy'n llywodraethu sut y bwriedir dehongli ei ddeddfwriaeth. Byddai hefyd yn gwella ar Ddeddf 1978 – nid yn unig am y byddai'n fodern ac yn ddwyieithog ond hefyd am na fyddai'r Bil, yn wahanol i Ddeddf 1978, ond yn cynnwys darpariaeth sy'n berthnasol i'r gyfraith sy'n gymwys yng Nghymru (ac nid y gyfraith sy'n gymwys mewn manau eraill yn y DU).
80. Er y byddai'r Ddeddf newydd i Gymru yn dechnegol ei natur, byddai'n helpu i gadw deddfwriaeth yn fyrrach ac yn fwy cyson; byddai'n lleihau cymhlethdod wrth ddrafftio a dehongli deddfwriaeth gan nodi rhai egwyddorion, rheolau a diffiniadau unwaith ac yn ddwyieithog fel nad oes angen eu hailadrodd ym mhob cyfraith newydd a wneir. Byddai'r Ddeddf newydd i Gymru, fel sy'n wir yn achos Deddfau Dehongli eraill, yn diffinio ymadroddion a ddefnyddir yn gyffredin mewn deddfwriaeth. Gall hyn helpu i ddatrys ansicrwydd ynghylch ystyr darpariaethau deddfwriaethol penodol. Byddai'r ddeddfwriaeth newydd yn cynnwys rheolau dehongli statudol, megis darpariaethau ynghylch pryd y bydd cyfreithiau yn dod i rym, cyfrifo cyfnodau amser, ac effeithiau diddymu, y mae pob un yn rhoi sicrwydd cyfreithiol. Er mai newidiadau mân a thechnegol yw'r rhain ac yn elfen fach yn unig o raglen ehangach Llywodraeth Cymru ar hygyrchedd cyfraith Cymru, maent yn angenrheidiol, serch hynny, ac yn cael eu cefnogi gan y mwyafrif o randdeiliaid.
81. Byddai'r rhai sy'n defnyddio'r corff cynyddol o gyfreithiau Cymru yn elwa ar ddeddfwriaeth ddehongli statudol sydd wedi'i chreu yn benodol i Gymru, sy'n ddwyieithog ac sydd wedi'i theilwra i'r awdurdodaeth benodol hon. Byddai mantais gyfansoddiadol Deddf ar wahân sy'n gwneud darpariaethau dehongli ar gyfer dehongli Cyfraith Cymru yn arwyddocaol ac mae'n fwy cyson â'r egwyddor a nodir yn adran 156 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (cydraddoldeb ieithoedd) na'r fframwaith deddfwriaethol presennol.
82. Byddai creu Deddf ar wahân sy'n gwneud darpariaethau dehongli ar gyfer dehongli cyfraith Cymru yn helpu i godi ymwybyddiaeth o berthnasedd Deddfau dehongli, o leiaf ymhlith y partïon sydd â buddiant. Mae'n glir y dylai Deddfau o'r

fath yn y pen draw fod yn arf sy'n bodoli yn y cefndir, yn rhan o beirianwaith y gyfraith na fyddai angen i'r darllenydd cyffredin orfod troi ato. Er hynny, mae bodolaeth Deddf o'r fath, a'r hyn y mae'n ei wneud, yn bwysig. Byddai ymwybyddiaeth o'i bodolaeth yn gwella hygyrchedd y gyfraith sy'n gymwys yng Nghymru yn unol â rhaglen ehangach y Cwnsler Cyffredinol.

83. Cydnabyddir y byddai dwy Ddeddf ddehongli ar waith, o reidrwydd, o dan yr opsiwn hwn. Er hynny, byddai manteision creu Deddf ar wahân sy'n gwneud darpariaethau dehongli yn benodol ar gyfer dehongli'r gyfraith sy'n gymwys yng Nghymru yn drech nag unrhyw anfanteision posibl sy'n deillio o'r mater dwy Ddeddf.

Casgliad (a'r opsiwn a ffefrir)

84. Mae Cymru wedi datblygu corff o ddeddfwriaeth ddwyieithog a fydd yn ehangu'n gyflym yn y dyfodol. Mae'n bwysig bod yr arf dehongli statudol a ddefnyddir i ddehongli'r ddeddfwriaeth ddwyieithog sy'n gymwys yng Nghymru yn addas at ei ddiben, yn ddwyieithog ac yn adlewyrchu arferion y Cynulliad Cenedlaethol fel deddfwrfa fodern. Mae rhanddeiliaid wedi'i gwneud yn glir nad yw Deddf 1978 yn addas i'r diben.
85. Cydnabyddir mai'r ffordd orau o sicrhau unrhyw ddiwygio ar y gyfraith sy'n llywodraethu'r gwaith o ddehongli deddfwriaeth sy'n gymwys yng Nghymru fyddai trwy Ddeddf newydd ar wahân ar gyfer Cymru.
86. Mae manteision posibl datblygu Deddf ar wahân sy'n gwneud darpariaethau dehongli ar gyfer dehongli cyfraith Cymru yn drech na'r costau ac yn enwedig y pryderon a godwyd gan randdeiliaid mewn perthynas ag anfanteision posibl cael dwy Ddeddf ddehongli ar waith yng Nghymru.
87. Am y rhesymau hyn, opsiwn 3 yw'r opsiwn a ffefrir.